Rhestr Wirio - Snapchat

- ☐ Beth ydy Snapchat?
- ☐ Sut i gadw rheolaeth?
- ☐ Sut i ddod o hyd i'm ffrindiau?
- ☐ Sut i flocio a dileu?
- ☐ Sut i adrodd problem?
- ☐ Ble i fynd am gefnogaeth bellach?

Gwnewch y Gwiriad



Ble i fynd am gefnogaeth bellach?

Canolfan Ddiogelwch Snapchat: www.snapchat.com/safety

Cefnogaeth Snapchat: https://support.snapchat.com

Canllaw Snapchat i Rieni gan ConnectSafely: www.connectsafely.org/wp-content/uploads/snapchat_parents_guide.pdf

Newidiadau diweddaraf ar Flog Snapchat: http://blog.snapchat.com

Canolfan Rhyngrwyd Ddiogelach y DU: www.saferinternet.org.uk

Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol: www.saferinternet.org.uk/helpline

Adrodd Delweddau Camdriniaeth Plant i'r IWF: www.iwf.org.uk

Adrodd camdriniaeth neu baratoi plant i bwrpas rhyw i CEOP: http://ceop.police.uk

Llinell Gymorth Get Connected: www.getconnected.org.uk

Ebrill 2015

Cydariannir gan yr Undeb Ewropeaidd

UK Safer Internet Centre

SWGfL Education that Clicks

Beth ydy Snapchat?

Mae Snapchat yn ap negeseuo lluniau gyda gwahaniaeth. Gall defnyddwyr dynnu lluniau, recordio fideos, ychwanegu testun a lluniau a'u gyrru at bobl. Fel rhagosodiad nid yw 'Snapiau' yn cael eu harbed felly mae'n teimlo fel cymdeithasu heb adael llwybr. Unwaith mae pawb wedi gweld y Snap, mae system Snapchat yn ei ddileu o'r gweinyddion yn awtomatig. Fel rheol, ni all neb adalw Snapiau sydd wedi'u hagor o weinyddion Snapchat, am unrhyw reswm. Ar ôl cofrestru bydd 'Tîm Snapchat' yn gyrru cyfres o 'Snapiau' i chi yn awtomatig i esbonio'r hanfodion.

Cyfyngiadau Oedran

Mae Snapchat i bobl dros 13 oed. Nid yw'n fwriad i rai dan 13 ei ddefnyddio. Dylai pobl ifanc 13-17 oed ofyn caniatâd gan riant neu warchodwr cyfreithiol i ddefnyddio'r ap. Os yw plentyn o dan 13 oed wedi creu cyfrif Snapchat mae modd dileu'r cyfrif trwy fynd i https://accounts.snapchat.com/accounts/delete_account a rhoi mewn enw defnyddiwr a chyfrinair y plentyn. Os yw Snapchat yn darganfod bod defnyddiwr o dan 13 oed byddant yn terfynu'r cyfrif.

Nodyn: Os ydych chi'n anghofio eich cyfrinair gallwch gyflwyno cais i newid cyfrinair ar: https://accounts.snapchat.com/accounts/password_reset_request

Sut i gadw rheolaeth?

Newidiwch eich Gosodiadau Preifatrwydd

Dim ond defnyddwyr rydych chi'n ychwanegu i'ch rhestr ffrindiau sydd yn gallu gyrru Snapiau i chi fel rhagosodiad. Os oes rhywun yn ceisio gyrru Snap i chi sydd ddim ar eich rhestr ffrindiau, byddwch yn derbyn hysbysiad eu bod wedi eich ychwanegu, ond dim ond pan fyddant yn cael eu hychwanegu gennych chi fyddwch ch'n derbyn y Snap oddi wrthynt.

I newid pwy sy'n gallu gyrru Snap i chi:

- Tapiwch yr ysbryd ar sgrin y camera i gael mynediad i'ch proffil, yna tapiwch yr eicon gêr ⚙ yng nghornel dde uchaf y sgrin.
- Tapiwch yr opsiwn **'Gyrru Snapiau i mi...'** a dewis un ai
  - '**Pawb**' - Mae hyn yn caniatáu i unrhyw un yrru Snapiau atoch chi (dieithrion hyd yn oed).
  - '**Fy Ffrindiau**' - Dim ond eich ffrindiau sydd yn gallu gyrru Snapiau atoch chi.

I newid pwy sy'n gallu gyrru Straeon i chi:

- Sweipiwch i'r dde ar sgrin y camera i gael mynediad i'ch proffil, yna tapiwch ar yr eicon gêr ⚙ yng nghornel dde uchaf y sgrin.
- Dewiswch yr opsiwn **'Gweld fy Straeon...'** a dewis un ai:
  - '**Pawb**' - Mae hyn yn caniatáu i unrhyw un weld eich Straeon (dieithrion hyd yn oed).
  - '**Fy Ffrindiau**' - Dim ond eich ffrindiau sydd yn gallu gweld eich straeon.
  - '**Addasu**' - Mae hyn yn caniatáu i chi ddewis pa ffrindiau sy'n gallu gweld eich straeon.

Nodyn: I glirio sgwrs, tapiwch yr ysbryd, yna tapiwch y gêr ⚙ yng nghornel dde uchaf y sgrin a sgrolio i **'Clirio Sgyrsiau'**.

Sut i ddod o hyd i'm ffrindiau?



Darganfod ac Ychwanegu Ffrindiau

Tapiwch ar yr ysbryd ar sgrin y camera.

- I ychwanegu ffrind sydd wedi eich ychwanegu chi, tapiwch '**Ychwanegwyd fi**', chwiliwch am yr enw defnyddiwr yn y rhestr, yna tapiwch yr eicon plws ⊞ wth ochr yr enw.
- I ychwanegu ffrindiau o restr cysylltiadau eich dyfais, tapiwch yr eicon llyfr cyfeiriadau ▣ (efallai bydd angen i chi wirio eich rhif ffôn). Unwaith i chi ei wirio, bydd eich cysylltiadau ffôn sydd â chyfrif Snapchat yn ymddangos, ynghyd â ffrindiau sydd heb Snapchat, gallwch eu gwahodd gyda neges testun.
- I ychwanegu ffrindiau sydd ddim ar eich rhestr cysylltiadau, tapiwch yr eicon 'Ychwanegwch Ffrindiau' ⊕ a theipio'r enw defnyddiwr Snapchat. Tapiwch ar yr eicon plws ⊞ i'w hychwanegu fel ffrind.

Os nad ydych chi am i'ch ffrindiau eich darganfod gyda'ch rhif ffôn:

- Tapiwch yr ysbryd ar sgrin y camera, yna tapiwch ar yr eicon gêr ⚙ yng nghornel dde uchaf y sgrin.
- Tapiwch '**Rhif Symudol**'.
- Diffoddwch y botwm '**Caniatáu i'm ffrindiau fy narganfod**' i ddatgysylltu eich rhif ffôn.

Sut i Flocio a Dileu?

Blocio a Dileu ffrindiau

Mae blocio rhywun ar Snapchat yn golygu byddant yn cael eu hatal rhag gyrru Snapiau, Sgyrsiau a gweld eich Straeon. Os ydych chi'n dileu rhywun ni fyddant bellach yn derbyn eich Snapiau, ond gallant barhau i'w gyrru atoch chi. I flocio neu ddileu cyswllt:

- Ar y dudalen **'Fy Nghysylltiadau'** tapiwch yr enw defnyddiwr i'w ddileu.
- Tapiwch ar yr eicon gêr ⚙ sy'n ymddangos wrth ochr yr enw.
  - Dewiswch **'Blocio'** i atal Snapiau, Sgyrsiau neu i atal mynediad i'ch Straeon.
  - I'w dileu o'ch rhestr ffrindiau dewiswch 'Dileu'.

I ddadflocio defnyddiwr:

- Tapiwch yr enw defnyddiwr, yna tapiwch yr eicon gêr ⚙ wrth ochr yr enw.
- Dewiswch 'Dadflocio' a bydd y defnyddiwr yn cael ei ychwanegu yn ôl i'ch rhestr ffrindiau.

Nodyn: Mae telerau defnydd llawn ar: www.snapchat.com/terms

Sut i adrodd problem?

Rhannu cyfnodau a chael hwyl ydy pwrpas Snapchat. Maent yn annog hunanfynegiant, ond maent hefyd yn parchu angen y defnyddiwr i fedru defnyddio'r ap yn ddiogel ac yn bleserus. Nid ydynt yn goddef 'Snapiau' sy'n rhannu:

- Pornograffi, noethni neu'n awgrymiadol rywiol yn ymwneud â phobl o dan 18 oed
- Pobl Ifanc (o dan 18) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n beryglus yn gorfforol ac yn niweidiol
- Torri ar breifatrwydd neu dynwarediad
- Bygythiadau, Aflonyddwch neu Fwlio
- Hunan-niwed

Gall Snapchat ddileu'r fath yma o gynnwys, atal cyfrifon sydd yn eu gyrru a'u gwahardd rhag defnyddio Snapchat yn y dyfodol.

Mae nodweddion adrodd Snapchat yr un peth ar bob dyfais. Gall defnyddwyr Symudol a Llechen ddarganfod yr holl lwybrau adrodd wrth dapio ar yr ysbryd ar sgrin y camera; tapio ar yr eicon gêr ⚙ a dewis '**Cefnogaeth**'. Gall defnyddwyr cyfrifiadur ddilyn y dolenni isod i adrodd:

- Cynnwys Amhriodol: https://support.snapchat.com/co/inappropriate
- Aflonyddu: https://support.snapchat.com/co/harassment
- Dynwarediad: https://support.snapchat.com/co/impersonation
- Mater Camdriniaeth neu Ddiogelwch fel arall: https://support.snapchat.com/co/other-abuse

Beth arall gallaf ei wneud ar Snapchat?

Hidlyddion Daearyddol

Mae hyn yn ffordd hwyliog o rannu eich lleoliad gyda throshaenau hidlo. Maent yn benodol i gymdogaethau ac mae'r dyluniadau unigryw yn newid o le i le, felly mae angen galluogi eich gosodiadau lleoliad. Cofiwch, os ydych chi'n ychwanegu Hidlydd Daearyddol i'ch Snap neu Stori, rydych chi'n datgelu eich lleoliad i unrhyw un sydd yn ei weld.

Sgwrs Fideo

Pan rydych chi a'ch ffrind yn bresennol yn Sgwrs ar yr un pryd, bydd yr eicon melyn yn troi'n las. Pwyswch a daliwch yr eicon '**Yma**' i gychwyn sgwrs fideo yn syth. Pan fydd eich ffrind yn pwyso ac yn dal yr eicon '**Yma**' ar yr un pryd, byddwch mewn sgwrs fideo ddwyffordd yn syth.

Straeon

Mae 'Fy Straeon' yn cyfuno cyfres o Snapiau at ei gilydd i greu naratif sydd yn parhau am 24 awr. Yn ddibynnol ar osodiadau preifatrwydd, mae'r lluniau a'r straeon sydd yn cael eu hychwanegu i Stori yn weladwy i un ai pawb, ffrindiau'r defnyddiwr yn unig, neu i grŵp penodol.

Ein Straeon

Mae 'Ein Straeon' yn llif o Snapiau gan ddefnyddwyr o amrywiaeth o leoliadau a digwyddiadau. Bydd defnyddwyr sydd 'yn yr un lleoliad/ digwyddiad yn cael yr opsiwn i gyfrannu Snapiau i 'Ein Stori', cyn belled â bod gwasanaethau lleoliad ymlaen. Y canlyniad ydy Stori sy'n cael ei ddweud o safbwynt cymunedol gyda nifer o safbwyntiau gwahanol.